COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL GYNHALIWYD REMOTELY - TRWY MICROSOFT TEAMS YMLAEN DYDD LLUN, 27 GORFFENNAF 2026 YN 10:00

Presennol o bell

Y Cynghorydd RL Penhale-Thomas – Cadeirydd ar gyfer y Cyfarfod

| | | | |
|---|---|---|---|
| F D Bletsoe | JPD Blundell | N Clarke | HJ David |
| S J Griffiths | M L Hughes | T Thomas | AJ Williams |
| MJ Williams | E D Winstanley | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

H Griffiths, J Llewellyn-Hopkins a/ac A Ulberini-Williams

Y Cynghorydd Jane Gebbie - Dirprwy Arweinydd / Aelod Cabinet dros Wasanaethau
Y Cynghorydd Melanie Evans – Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol
Joanne Norman - Dirprwy Bennaeth Cyllid Dros Dro

Gwahoddedigion

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd John Spanswick | Arweinydd |
| Y Cynghorydd Hywel Williams | Aelod y Cabinet dros Gyllid a Thrawsnewid |
| Y Cynghorydd Martyn Jones | Aelod y Cabinet dros Addysg a Phobl Ifanc |
| Y Cynghorydd Eugene Caparros | Aelod y Cabinet dros Gymunedau a'r Amgylchedd (Rhannu Swydd) |
| Y Cynghorydd Gary Haines | Aelod y Cabinet dros Gymunedau a'r Amgylchedd (Rhannu Swydd) |
| Y Cynghorydd Colin Davies | Aelod y Cabinet dros Adfywio a Thai |

| | |
|---|---|
| Jake Morgan | Prif Weithredwr |
| Carys Lord | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoliadol ac Etholiadol |
| Stacey Forde | Pennaeth Perfformiad, Gweithlu a Newid Diwylliannol |
| Kate Pask | Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol |

**This document is available in English / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL - DYDD LLUN, 27 GORFFENNAF 2026**

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |

Datganiadau o Fuddiannau

Y Cynghorydd AJ Williams – Eitemau 4, 5 a 6 – Personol - Llywodraethwr Cymunedol Ysgol Gynradd Coety

## 202. Penodi Cadeirydd

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Penodwyd y Cynghorydd RL Penhale-Thomas yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 27 Gorffennaf 2026 |

## 203. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ar 29 Mehefin 2025 yn gofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 27 Gorffennaf 2026 |

## 204. Monitro'r Gyllideb 2026-27 - Rhagolwg Refeniw Chwarter 1

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyried yr adroddiad a'i drafod yn fanwl gydag aelodau'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad canlynol a'r ceisiadau am wybodaeth ychwanegol: |

| | |
|---|---|
| | **Argymhelliad:**<br><br>1. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylai adroddiadau Cyllideb Refeniw yn y dyfodol a'r rheiny sy'n cyfeirio at Raglen Gyfalaf y Cyngor gyfeirio'n benodol at unrhyw effaith ar refeniw o ganlyniad i oedi yn y Rhaglen Gyfalaf.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdani:**<br><br>2. Bu’r Pwyllgor yn trafod ysgolion oedd yn rhagweld diffyg yn eu cyllidebau a **gofynnodd** am ddadansoddiad o faint mae'r gostyngiad yn nifer y disgyblion yn effeithio ar y diffygion a faint mae’r galw cynyddol am gymorth i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn effeithio arnynt.<br><br>3. Bu’r Pwyllgor yn trafod cynllun Llywodraeth Cymru i ehangu Prydau am Ddim yn gyffredinol i blant Ysgol Gynradd i ysgolion uwchradd, mynegodd bryder ynghylch y diffyg eglurder ynglŷn â’r camau nesaf ar gyfer gweithredu a'r pwysau ariannol a allai ddeillio o'r ehangu a **gofynnodd** am gopi o'r canllawiau y dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddent yn eu derbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru cyn bo hir.<br><br>4. Bu’r Pwyllgor yn trafod y gorwariant a ragwelid ar y Fenter Brecwast Am Ddim, dywedwyd wrthynt y dylai'r ddarpariaeth fod yn gymesur â'r galw a **gofynnodd** am esboniad ar yr anghysondeb.<br><br>5. Bu’r Pwyllgor yn trafod effaith y twf yn y boblogaeth ar ddarparu gwasanaethau i blant ag anghenion cymhleth a **gofynnodd** am nifer ragamcanol o’r plant ag anghenion cymhleth oedd yn debygol o drosglwyddo i Ofal Cymdeithasol i Oedolion dros y 3-5 mlynedd nesaf. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 27 Gorffennaf 2026 |

**205. Perfformiad Corfforaethol Chwarter 4/ Diwedd Blwyddyn 2025-26**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyried yr adroddiad a’i drafod yn fanwl gydag aelodau’r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad canlynol a’r ceisiadau am wybodaeth ychwanegol: |

| | |
|---|---|
| | **Argymhelliad:**<br><br>6. Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r ffaith fod ffigurau'r llynedd wedi eu cynnwys yn y tabl Absenoldeb Salwch yn ôl Rheswm yn y Dangosfwrdd Perfformiad ac **argymhellodd** ystyried nodi a oedd yr absenoldeb oherwydd Anhwylder Cyhyrysgerbydol *gan gynnwys y cefn a'r gwddf* yn gysylltiedig â gwaith ai peidio, er mwyn deall faint o ddiwrnodau oedd yn cael eu colli oherwydd anafiadau cysylltiedig â gwaith.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdani:**<br><br>7. Bu'r Pwyllgor yn trafod y Rhaglen Bwyd a Hwyl a **gofynnodd** am gadarnhad o nifer yr ysgolion oedd yn cymryd rhan yr Haf hwn (2026) a lledaeniad yr ysgolion hynny ar draws y Fwrdeistref Sirol.<br><br>8. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch yr amser a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a **gofynnodd** am y data gan Awdurdodau Lleol cymharol a chyfagos, lle bo'r data ar gael. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 27 Gorffennaf 2026 |

## 206. Hunanasesiad 2025/26

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | <u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Yn dilyn ystyried yr adroddiad a'i drafod yn fanwl gydag aelodau'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad:<br><br>**Argymhelliad:**<br><br>9. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch yr anghysondeb canfyddedig mewn rhai meysydd sydd yn goch yn y Dangosfwrdd Perfformiad ond wedi cael eu marcio'n ambr yn yr Hunanasesiad ac **argymhellodd** y dylid ystyried sut mae'r naratif yn y ddau yn egluro'r gwahaniaeth mewn fframweithiau mesur ar gyfer pob un er mwyn sicrhau eglurder a thryloywder i'r Aelodau ac i'r cyhoedd. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 27 Gorffennaf 2026 |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

## 207. Diweddariad Rhaglen Gwaith

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyodd y Pwyllgor ei Flaenraglen Waith ddrafft yn Atodiad A yn amodol ar y canlynol, nododd y Daflen Gweithredu Monitro Argymhellion i olrhain ymatebion i Argymhellion y Pwyllgorau a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol yn Atodiad B a nododd y Blaenraglenni Gwaith ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu eraill yn Atodiadau C, D ac E:<br><br>**Gofynnodd** y Pwyllgor am y canlynol:<br><br>a. cynnwys gwybodaeth yng nghwmpas adroddiad y Strategaeth Drawsnewid ynghylch cyllidebau, sut y gallai buddsoddiad cyfalaf greu cyfleoedd ar gyfer arbedion refeniw a sut y byddent yn cael eu monitro;<br>b. Diweddariad ynghylch pryd y cyflwynir y Wybodaeth am Wasanaethau Gwastraff yn y Dyfodol;<br>c. Darparu Briff i'r holl Aelodau ynghylch Cyfamod Lluoedd Arfog y Cyngor; ac<br>d. ychwanegu adroddiad at Raglen Waith y Pwyllgor ynghylch yr oedi yn yr amser a gymerir i ymateb i Gwynion Corfforaethol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 27 Gorffennaf 2026 |

## 208. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Dim. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 27 Gorffennaf 2026 |

Er mwyn gwylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon, os gwelwch yn dda.

Terfynwyd y cyfarfod yn 13:33.

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**